

POLISI YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

CYNNWYS

- 1. TAFLEN ADOLYGU**
 - 2. CYFLWYNIAD**
 - 3. DATGANIAD POLISI**
 - 4. DEDDFWRIAETH**
 - 5. CYFRIFOLDEBAU**
 - 6. DIFFINIADAU O YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL**
 - 7. MESURAU ATAL A GORFODI**
 - 8. CEFNOGAETH AR GYFER DIODDEFWYR A THYSTION**
 - 9. CEFNOGAETH AR GYFER TENANTIAID BREGUS AC ADFER RHAI SY'N
TROSEDDU**
 - 10. CYFFURIAU**
 - 11. TRAIS YN Y CARTREF**
 - 12. TROSEDD CASINEB A HIL**
 - 13. GWAHANIAETHAU AR SAIL ANABLEDD**
 - 14. MATERION AR DRAWS DALIADAETH**
 - 15. CYFRINACHEDD, RHANNU DATA A DIOGELU DATA**
 - 16. HYFFORDDI STAFF**
 - 17. AMDDIFFYN STAFF**
 - 18. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**
 - 19. CYFEIRNODAU**
 - 20. ADOLYGU**
- ATODLEN 1**

DATGANIAD O WEITHDREFNAU YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

1. TAFLEN ADOLYGU

Rhifyn	Disgrifiad Byr o'r Rheswm dros Newid	Perchennog y Ddogfen	Dyddiad Rhannu
1	Adolygu Dogfen Wreiddiol Ebrill 2010	Geraint Jones	Awst 2012
2	Addasu templed y polisi	Geraint Jones	Medi 2012
3	Newidiadau i baragraff 12.1	Geraint Jones	Mai 2013
4	Adolygu polisi yn unol â chreu Deddf Troseddu a Phlisma YGG 2014	Geraint Jones	Mai 2015

2. CYFLWYNIAD

- 2.1. Yn unol ag Adran 218A Deddf Tai 1996, mae'r Polisi hwn a safonau gwasanaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yn nodi ymrwymiad CCG i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- 2.2. Mae CCG yn cydnabod bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn derm eang a ddefnyddir i ddisgrifio achosion beunyddiol o droseddu, amharu neu anhrefn sy'n effeithio ar fywydau pobl – o ysbwriel a fandaliaeth, meddwdod cyhoeddus neu gŵn bygythiol, i gymdogion swnllyd neu sarhaus.
- 2.3. Mae ystod mor eang o ymddygiadau'n golygu nad cyfrifoldeb CCG yn unig yw delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol – ond yn hytrach mae'n gyfrifoldeb ar y cyd rhwng preswylwyr ac amryw o asiantaethau fel yr Heddlu, Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Tân a landlordiaid cymdeithasol eraill a phartneriaid eraill yn ôl y galw.

3. DATGANIAD POLISI

- 3.1. Lles a diogelwch y dioddefwyr fydd y brif ystyriaeth ym mhob cam o'r broses. Bydd hyn yn sicrhau gwasanaeth teg a chyson er budd y cyhoedd a gweithredu'n amserol ac yn briodol er mwyn trechu ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- 3.2. Bydd CCG yn defnyddio rheolaeth achos effeithiol yn unol â'n Safonau Gwasanaeth fel sail i unrhyw waith sy'n delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gychwyn pan dderbynnir cwyn hyd at ddatrys y problem.
- 3.3. Ein nod fel Landlord yw cynnal tenantiaethau a gwneud iddynt bara. Ein polisi yw ceisio datrys problemau cyn gynted â phosib heb fod angen gweithredu'n Gyfreithiol. Yn y rhan fwyaf o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, ystyrir ymyriadau cynnar ac anffurfiol. Maent yn sefydlu safonau clir ynghylch ymddygiad ac yn atgyfnerthu'r neges na fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei oddef.
- 3.4. Mewn rhai achosion er enghraifft, lle ceir tystiolaeth o ymddygiad troseddol difrifol, gall CCG benderfynu defnyddio mesurau gorfodi cryfach yn gynnar iawn.

4. DEDDFWRIAETH

- 4.1. Mae'r polisi hwn wedi ei baratoi yn unol â chanllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai sy'n ymwneud â chyhoeddi a rhoi polisïau a gweithdrefnau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar waith.
- 4.2. Er bod Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn rhoi pwerau estynedig i drechu ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae yna amryw o ofynion deddfwriaethol eraill ehangach y mae'n rhaid i CCG gydymffurfio â nhw.
- 4.3. Mae gan CCG amryw o offerynnau a phwerau ar gael i drechu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r pwerau hyn wedi eu cynnwys yn Neddf Tai 1988 a 1996 a Deddf Troseddu a Phlisma Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2014.

4.4. Bydd CCG yn cydymffurfio ag amryw o ddeddfwriaethau, fel Deddf Gydraddoldeb 2010, wrth gynnal ei ddyletswyddau. Byddwn yn sicrhau y bydd ein polisïau a'n gweithdrefnau'n gyfreithlon ac yn cydymffurfio â'r gofynion statudol sydd gennym.

5. CYFRIFOLDEBAU

5.1. Rôl y Tîm Gwasanaethau Bro yw delio ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol o fewn CCG. Mae'r tîm yn gweithio'n agos ac yn cysylltu â gwasanaethau eraill o fewn CCG fel y Tîm Gwasanaeth Cwsmer, sydd wedi ei hyfforddi i gyfeirio materion o'r cychwyn cyntaf.

6. DIFFINIADAU O YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

6.1. Mae Deddf Troseddau a Phlisma Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn diffinio ymddygiad gwrthgymdeithasol fel

- (a) "Ymddygiad sydd wedi achosi, neu sy'n debygol o achosi, aflonyddwch, braw neu drallod i unrhyw unigolyn,
- (b) Ymddygiad sydd yn medru achosi diflastod neu annifyrrwch i unigolyn mewn perthynas â meddiannaeth yr unigolyn hwnnw o'r eiddo preswyl, neu
- (c) Ymddygiad sydd â'r gallu i achosi diflastod neu annifyrrwch yn ymwneud â thai i unrhyw unigolyn."

6.2. Mae angen gwahaniaethu rhwng niwsans neu ddiflastod ar lefel isel ac ymddygiad cyson a difrifol. Bydd CCG yn bodloni ei hun bod honiadau yn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac nad ydynt yn enghreifftiau o ffyrdd o fyw sy'n gwrthdaro.

6.3. Gall yr ymddygiad gwrthgymdeithasol gynnwys:

- Sŵn
- Aflonyddu / bygythiadau
- Niwsans gardd
- Anifeiliaid Anwes / Anifeiliaid
- Cyffuriau
- Ardaloedd Cyffredin / Loetran
- Ysbwriel
- Fandaliaeth
- Ymddygiad troseddol arall
- Trais / cam-drin yn y cartref
- Cerbydau
- Ymwneud ag alcohol
- Trais arall
- Digwyddiadau yn ymwneud â chasineb

- Puteindra / rhyw

6.4. Nid yw'r rhestr uchod yn rhestr lawn o'r categorïau. Nod y rhestr yw cynnig y math o ymddygiadau dan sylw.

7. MESURAU ATAL A GORFODI

7.1. Mae gan staff CCG y disgrisiwn i bennu'r ffordd orau i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mabwysiadir dull achos fesul achos a monitro hynny'n unol â Safonau Gwasanaeth CCG. Gellir defnyddio offerynnau ataliol ac/neu orfodi fel a ganlyn:

7.1.1. Mesurau Atal

- (a) **Cyfyngu** – gellir cynnig hyn mewn mân anghydfodau, yn gynnwys iawn cyn i'r sefyllfa waethygu; er enghraifft rhwng dau denant neu breswlydd dau gartref. Byddwn yn ymdrechu i ddefnyddio Swyddogion o fewn y Tîm Gwasanaethau Bro sydd heb fod yn ymdrin â'r broblem o'r blaen. Gellir defnyddio cyfryngwyr allanol mewn achosion lle pennir ei bod hi'n amhriodol i staff CCG gynnal y gwaith cyfyngu.
- (b) **Rhybudd Terfynol** - Bod rhybudd terfynol wedi ei arwyddo gan y tenant a Chartrefi Cymunedol Gwynedd sy'n nodi'r amodau tenantiaid sydd wedi eu torri ac yn nodi'r ymddygiad lle mae cwyn wedi ei gyflwyno amdano. Bydd y rhybudd yn cynghori'r tenant yn ffurfiol y bydd unrhyw adroddiadau pellach o dramgwyddo telerau'r denantiaeth yn arwain at ddwyn Achos Cyfreithiol.
- (c) **Gwasanaethau Atal** – o Fewn Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Gwynedd a Môn mae yna Dîm Atal sy'n ymyrryd mewn achosion lle mae pobl ifanc yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac yn ymylu ar fod yn troseddu wrth wneud hynny. Gall staff Gwasanaethau Bro gyfeirio person ifanc sy'n ymgymryd ag ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r Tîm Atal. Mae gweithio gyda'r Tîm Atal yn wirfoddol yn dilyn caniatâd gan riant/gwarchodwr. Amcan craidd y gwasanaeth yw cynnig dulliau i ddod ag ymddygiad gwrthgymdeithasol i ben cyn bod yr unigolyn ifanc yn mynd mewn i'r system Cyfiawnder Ieuencid.
- (d) **Gweithdrefnau o fewn y dyraniad tai** – mewn amgylchiadau eithriadol, gall CCG ddefnyddio'i ddisgrisiwn i ddyrannu eiddo y tu allan i delerau'r weithdrefn osod arferol e.e. pan fydd tenant yn dioddef achos o dargedu neilltuol gan ei fod wedi bod yn dyst i drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ac angen felly cael ei symud er mwyn bod yn ddiogel.
- (e) **Grwpiau Datrys Problem Aml Asiantaeth** - Gall Cartrefi Cymunedol Gwynedd ofyn bod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn galw cyfarfod rhwng yr holl randdalwyr mewn problem neilltuol fel y gallant greu cynllun gweithredu ar y cyd i ymdrin â'r broblem.

7.1.2. **Mesurau Gorfodaeth** - Amcan Cartrefi Cymunedol Gwynedd yw datrys problemau mor gyflym ag sy'n bosib drwy'r ffordd fwyaf addas heb orfod ymgymryd â gweithred gyfreithiol. Fodd bynnag, mae gan y gymdeithas y

mesurau gorfodaeth canlynol er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- (a) **Gwaharddebau** – Gall CCG wneud cais am waharddeb yn erbyn unrhyw un sy'n gyfrifol am ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyn belled bod yr ymddygiad yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â swyddogaethau rheolaeth dai CCG. Gall gwaharddeb atal unigolyn sy'n destun y waharddeb rhag gwneud rhai pethau penodol e.e. chwarae cerddoriaeth mor uchel nes bod pobl yn ei chlywed y tu hwnt i ffiniau'r eiddo. Gall gwaharddeb ei gwneud hi'n ofynnol hefyd i unigolyn wneud rhai pethau penodol e.e. mynychu cyrsiau rheoli tymer. Gall gwaharddeb atal unigolyn rhag mynd i rywle neilltuol, yn cynnwys ei gartref a gellir atodi'r grym i arestio i rai gwaharddebau.
- (b) **Ymrwymiad** - Pan fydd unigolyn yn addo i'r llys i beidio ymddwyn mewn ffordd benodol. Mae unrhyw ymrwymiad yn debyg i Waharddeb, felly os caiff ei dorri, mae'n achos o ddirmyg llys a gellir gwneud cais i yrru'r unigolyn i garchar.
- (c) **Gorchymyn Israddio** – Gellir ymgeisio am orchmynion israddio yn erbyn tenantiaid sicr ar sail ymddygiad sy'n achosi diflastod neu ddefnydd anghyfreithlon o eiddo. Bydd gorchymyn israddio'n para 12 mis ac yn ystod y cyfnod hwnnw; bydd tenant yn colli nifer o'r hawliau sydd gan denant sicr yn cynnwys yr hawl i brynu a'r hawl i gydgyfnewid.
- (d) **Achos cymryd meddiant yn erbyn tenantiaid sicr** – Gellir cyflwyno cais i'r Llys Sirol Lleol (ar ôl cyflwyno hysbysiad bwriad i geisio meddiant) am orchymyn meddiant. Bydd angen i'r landlord sefydlu un o'r rhesymau am feddiannu sydd wedi ei gynnwys o fewn Atodlen 2 Deddf Tai 1988 a hefyd ei bod hi'n rhesymol i ymgymryd â rhybudd o'r fath.
- (e) **Achos cymryd meddiant yn erbyn tenantiaid byrddaliad** – Gellir cyflwyno cais i'r Llys Sirol Lleol (ar ôl cyflwyno hysbysiad bwriad) am orchymyn meddiant.
- (f) **Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990** - mewn achosion o niwsans sŵn, gellir cyfeirio achosion i Adran Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol.

7.2. Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn ymwybodol, wrth ymgymryd ag achosion cyfreithiol, y dylai gydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth sydd wedi eu rhestru ym mharagraff 4 o'r polisi hwn.

8. CEFNOGAETH AR GYFER DIODDEFWYR A THYSTION

8.1. Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn deall y rôl bwysig y mae cwynwyr a thystion yn ei chwarae wrth ddatgelu, atal ac wrth weithredu yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau. Felly byddwn yn ymdrin â phob cwyn yn ddiymdroi a gadael i gwynwyr wybod am ddatblygiadau sy'n ymwneud â'u hachos. Bydd y Swyddog sy'n ymdrin â'r achos yn cynnig cyngor a chefnogaeth i'r cwynwyr yn unol â safonau Gwasanaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Nid ydym fyth yn bychanu'r lefel o ofn a bygythiad y

mae'n rhaid i dystion a dioddefwyr ei ysgwyddo. Diogelwch a lles dystion a dioddefwyr yw'r flaenoriaeth ym mhob achos.

- 8.2. Gellir cynnig cefnogaeth i dystion a dioddefwyr gan staff gwasanaethau cymdogaeth neu gan Asiantaeth Gefnogi berthnasol os yw hynny'n briodol. Mewn achosion sy'n mynd ymlaen i wrandawriad ger bron Llys, gall CCG wneud cais am le tawel i ffwrdd o'r Diffynnydd i aros cyn ac yn ystod y gwrandawriad. Os bydd achos yn cyrraedd y llys, bydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn sicrhau bod pob tyst yn ymwybodol o'r broses sydd ynghlwm â hyn a lle bo'n briodol, bydd trefniadau yn cael eu gwneud i dystion gwrdd â chynrychiolydd cyfreithiol y Gymdeithas cyn diwrnod y gwrandawriad.

9. CEFNOGAETH AR GYFER TENANTIAID BREGUS AC ADFER RHAI SY'N TROSEDDU

- 9.1. Amcan Cartrefi Cymunedol Gwynedd yw atal ymddygiad gwrthgymdeithasol rhag codi'i ben dro ar ôl tro. Bydd y dystiolaeth ym mhob achos yn cael ei hymchwilio i ganfod a oes yna achos arall pam bod rhywun yn ymddwyn fel ag y maent, er enghraifft:

- Gwrthdaro rhwng ffordd o fyw
- Anghydfod hanesyddol rhwng teuluoedd
- Perthnasau yn torri lawr
- Triwanta o'r ysgol / achosion gwahardd
- Salwch meddwl / anawsterau dysgu
- Camddefnyddio / yn ddibynnol ar sylweddau
- Bydd CCG yn cynnig cymorth ar gyfer y rhesymau sydd wrth wraidd y broblem / neu gyfeirio'r troseddwr at yr asiantaethau cefnogol
- Os credir bod unigolyn bregus mewn peryg o niwed sylweddol bydd CCG yn datgelu hynny wrth yr asiantaethau neu unigolion perthnasol yn unol â H&SSpol34 Polisi Diogelu Grwpiau Bregus.

- 9.2. Pan fydd problemau lle mae plant neu bobl ifanc ynghlwm ac os byddwn yn ceisio adnabod pam eu bod yn ymddwyn mewn ffordd anghymdeithasol, bydd eu rhieni / gwarchodwyr yn cael gwybod er mwyn ceisio newid eu hymddygiad. Gellir cyfeirio achosion perthnasol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid a Lles Addysg / gwasanaethau ysgolion.

10. CYFFURIAU

- 10.1. Nid yw Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn goddef dim ar achosion o ddefnyddio ei eiddo i gadw a/neu ddefnyddio sylweddau anghyfreithlon gan gynnwys cyffuriau rheoledig (fel caiff ei ddiffinio yn Neddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971). Bydd CCG yn gweithredu yn erbyn unrhyw unigolyn y canfyddir ei fod wedi defnyddio (ei hun neu drwy orchymyn, annog neu ganiatáu rhywun arall) eiddo CCG ar gyfer dibenion o'r fath. Mae gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd ddisgresiwn i benderfynu beth i'w wneud mewn achosion o'r fath.

11. TRAIS YN Y CARTREF

- 11.1. Ni fydd CCG yn goddef Trais Domestig. Mae Trais yn y Cartref yn drosedd yn llygaid CCG ac mae'n torri amodau tenantiaeth. Caiff y gymdeithas ei chynrychioli ar Fforwm Trais yn y Cartref Gwynedd ynghyd â'r CASAA (Cynhadledd Asesu Risg Aml Asiantaeth) Trais yn y Cartref sy'n cael ei gydlynu gan Heddlu Gogledd Cymru.
- 11.2. Bydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn gweithio gyda'r Heddlu ac asiantaethau eraill i ddefnyddio pwerau cyfreithiol gan gynnwys, lle bo'n briodol, darpariaethau o fewn y Ddeddf Tai 1998 neu'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 i droi troseddwr trais yn y cartref allan.
- 11.3. Byddwn yn ceisio:
- Cynnig cefnogaeth drwy asiantaethau perthnasol sy'n bartneriaid i ni
 - Darparu llety arall dros dro pan fydd gofyn
 - Ailgartrefu os bydd gofyn
 - Gweithio gydag asiantaethau eraill i gael canlyniad cadarnhaol
 - Gweithio gydag Uned Gwarchod y Teulu'r Heddlu lle mae rhaid ymgymryd â chamau gorfodi.

12. TROSEDD CASINEB A HIL

- 12.1. Ni fydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn goddef bod unigolyn yn cael ei dargedu ac yn goddef casineb neu / ac aflonyddu. Mae hyn yn cynnwys aflonyddu ar sail rhyw, tueddfryd rhywiol, crefydd, tarddiad ethnig, anabledd, genedl neu unrhyw sail arall.
- 12.2. Er bod gweithdrefn ymdrin ag aflonyddu hiliol yn debyg iawn i agweddau cyffredinol ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae'n bwysig bod yna wahaniaeth clir rhwng y ddau. Bydd CCG yn cyfeirio at y canllawiau a osodir yn E&Dpol01 Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ogystal â'r polisi ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- 12.3. Mae CCG yn adnabod bod aflonyddu hiliol yn weithred fwriadol a rhagfwriadol yn erbyn rhywun gan achosi trallod yn seiliedig ar ei darddiad ethnig. Y nodwedd sy'n gwahaniaethu digwyddiadau hiliol o drosedd arferol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yw'r elfen o gymhelliant hiliol.
- 12.4. Mae'n drosedd ac yn tramgwyddo Telerau'r Denantiaeth hefyd. Felly bydd cydweithio gyda'r Heddlu'n sicrhau y bydd y mesurau mwyaf effeithiol yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r troseddwr.

13. GWAHANIAETHAU AR SAIL ANABLEDD

- 13.1. Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn ymwybodol o anghenion pobl sydd ag anableddau a/neu broblemau iechyd meddwl, waeth ai nhw yw'r dioddefwr neu'r cyflawnwr. Byddwn yn ymgynghori gydag asiantaethau sy'n bartneriaid i ni sydd â gwybodaeth arbenigol ac arbenigedd i sicrhau bod anghenion yr unigolyn yn cael eu bodloni. Bydd CCG yn cyfeirio at y canllawiau a osodir yn

E&Dpol01 Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wrth ddelio â materion yn ymwneud â Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

14. MATERION AR DRAWS DALIADAETH

- 14.1. Os caiff cwyn ei chyflwyno i Gartrefi Cymunedol Gwynedd lle nad oes yna denant o'r Gymdeithas ynghlwm â hi, gallwn gyfeirio'r mater at asiantaeth arall megis yr Heddlu, Iechyd yr Amgylchedd neu Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.
- 14.2. Mewn achosion lle mae cwyn yn ymwneud â Thenant i Landlord Cymdeithasol arall, bydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn ymgynghori gyda'r Landlord perthnasol neu'n gyfeirio'r mater atynt.

15. CYFRINACHEDD, RHANNU DATA A DIOGELU DATA

- 15.1. Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd wedi tanysgrifio i brotocol rhannu gwybodaeth Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru a dan ddarpariaeth Adran 115 o'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae Memorandwm Cydddealltwriaeth yn bodoli rhwng CCG a Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer rhannu gwybodaeth.
- 15.2. Mae'r Gymdeithas wedi ymrwymo i gadw at delerau'r protocol ynghyd ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.
- 15.3. Pan fyddwn yn derbyn gwybodaeth neu gwynion yn ddiennw, byddwn yn cymryd gofal i sicrhau nad yw'r wybodaeth yn ffug neu'n falseisus.

16. HYFFORDDI STAFF

- 16.1. Caiff staff Cartrefi Cymunedol Gwynedd sy'n ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol eu hyfforddi yn briodol. Byddant yn mynychu hyfforddiant i'w diweddarau a seminarau pan fydd yna newidiadau i ddeddfwriaeth YGG neu pan fydd staff yn adnabod yr angen am hyfforddiant. Bydd staff hefyd wedi derbyn hyfforddiant o ran paratoi ffeiliau ar gyfer achosion llys a chymryd datganiadau.

17. AMDDIFFYN STAFF

- 17.1. Rydym yn cymryd lles staff Gwasanaethau Tai a'u hiechyd a'u diogelwch yn ddifrifol iawn ac mae yna amryw o fesurau mewn lle i ddiogelu staff sy'n cynnwys:
 - Gweithdrefnau gweithio'n unig
 - Ymweliadau ar y cyd gydag aelodau staff eraill a/neu Heddlu
 - Rhannu ffonau symudol a larymau personol
 - Aseidiadau Risg Rol
 - Cynnig Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)
- 17.2. Caiff achosion pan gaiff staff eu bygwth, cam-drin neu hyd yn oed eu niweidio eu cymryd o ddifrif a byddwn yn ymdrin â hyn yn ôl yr angen gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael. Ym mhob achos pan gaiff lles ac iechyd a diogelwch staff eu cyfaddawdu, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at yr Heddlu.

18. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

18.1. Mae CCG yn cydnabod y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gynnwys aflonyddwch hiliol a mathau eraill o aflonyddu a ysgogir gan ragfarn. Mae'r E&DDpol01 Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CCG yn berthnasol i bob agwedd ar ein gwaith yn cynnwys Darparu Gwasanaeth. Dywed y polisi y bydd gan bawb gyfle cyfartal wrth gael mynediad at wasanaethau. Wrth weithredu'r polisi hwn, bydd tenantiaid sy'n destun ymddygiad gwrthgymdeithasol a dargedir, o safbwynt gwahaniaethu ar sail casineb, hil ac anabledd, yn cael cynnig ystod o drefniadau cefnogol, yn ddibynol ar anghenion y dioddefwr ac yn unol â Safonau'r gwasanaeth.

19. CYFEIRNODAU

- Deddf Tai 1988
- Deddf Tai 1996
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Camddefnydd Cyffuriau 1971
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

20. ADOLYGU

20.1. Adolygir y weithdrefn hon bob 3 blynedd, neu mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth, canllaw rheoliadol, arfer da neu newidiadau mewn polisi arall perthnasol gan CCG.

ATODLEN 1

DATGANIAD O WEITHDREFNAU YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae CCG yn disgwyl safon benodol o ymddygiad gan ei denantiaid, y rhai sy'n byw gyda nhw (gan gynnwys plant) a'u hymwelwyr. Amcan CCG yw gweithio mewn partneriaeth i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, datrys materion lleol a gwella cymdogaeth.
- 1.2 Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throseddu a Phlisma 2014 yn diffinio ymddygiad gwrthgymdeithasol fel
- “(a) Ymddygiad sydd wedi achosi, neu sy'n debygol o achosi, aflonyddwch, braw neu drallod i unrhyw unigolyn,
- (b) Ymddygiad sydd â'r gallu i achosi diflastod neu annifyrrwch i unigolyn mewn perthynas â meddiannaeth unigolyn o eiddo preswyl, neu
- (c) Ymddygiad sydd â'r gallu i achosi aflonyddwch neu annifyrrwch i unrhyw unigolyn mewn perthynas â thŷ.”
- 1.3 Mae angen gwahaniaethu rhwng niwsans ar lefel isel ac ymddygiad cyson a difrifol. Bydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf (“CCG”) yn bodloni ei hun bod honiadau yn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac nad enghreifftiau o ffyrdd o fyw sy'n gwrthdaro ydynt.
- 1.4 Mae'r ddogfen hon yn rhoddi gwybod i denantiaid sut a phryd i adrodd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol i CCG a beth ellir ei wneud i gywiro'r sefyllfa.

2 Cwyno am ymddygiad gwrthgymdeithasol

2.1 **Dros y ffôn neu'n bersonol yn ein swyddfeydd:**

2.2 **Adrodd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol dros y ffôn:**

- 2.3 Gallwch adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol dros y ffôn i CCG rhwng 08:00am a 6:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc).
- 2.4 Os dymunwch gyflwyno cwyn y tu allan i oriau swyddfa, dylech gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru yn gyntaf ar **101** er mwyn adrodd y mater ond dylech gysylltu â CCG cyn gynted â phosib i'w hysbysu am y digwyddiad.
- 2.5 Os ydych o'r farn bod yr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn un o natur droseddol, neu a all arwain at drosedd yn cael ei chyflawni, yna dylech gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru ar unwaith ar **999**.

2.6 **Dulliau i chi fedru cyflwyno cwyn am ymddygiad gwrthgymdeithasol:**

- 2.7 Gallwch wneud cwyn ar lafar, yn ysgrifenedig neu drwy drydydd parti (e.e. Cynghorydd). Dylid cyfeirio cwynion er sylw'r Swyddog Gwasanaethau Cymdogaeth ar gyfer eich ardal a'u hanfon drwy'r post neu e-bost at:

- Post - CCG, PO BOX 206, Bangor, Gwynedd, LL57 9DS
- E-bost - ymholiadau@ccgwynedd.org.uk

3 Prosesu cwyn am ymddygiad gwrthgymdeithasol

3.1 Bydd CCG yn ceisio:

3.2 Ymdrin â'ch cwyn yn brydlon

- Pan fyddwch chi'n cofrestru cwyn dros y ffôn, bydd Staff ein Canolfan Gyswllt yn ceisio delio â'ch cwyn. Os yw'r gŵyn yn un gymhleth, cewch eich cyfeirio at ein Tîm Gwasanaethau Bro
- Aelod o'r Tîm Gwasanaethau Bro i gysylltu â chi o fewn 1 diwrnod o dderbyn y gŵyn
- Cydnabod eich cwyn yn ffurfiol yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith
- Eich cyfweld o fewn 5 diwrnod gwaith i gael manylion llawn eich cwyn o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gall hyn gael ei wneud wyneb yn wyneb neu mewn rhai achosion dros y ffôn yn ddibynnol ar natur y gŵyn.
- Eich cyfweld o fewn 3 diwrnod gwaith os yw eich cwyn yn ymwneud â throstedd casineb, trais yn y cartref neu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol.
- Darparu cyngor a chefnogaeth os byddwch yn dod yn rhan o anghydfod gyda chymydog a lle bo'n briodol cynnig ffordd o gyfryngu.

3.3 Bod yn glir gyda chi o ran beth allwn ni ei wneud

- Trefnu i ymweld â chi i drafod materion ym mhreifatrwydd eich cartref, neu os yw'n well gennych, mewn Swyddfa Ardal
- Eich cyngori ar beth allwn ei wneud i ymdrin â'r broblem a hefyd sefydlu beth na allwn ei wneud
- Gweithio gyda chi i wneud cynllun gweithredu gan amlinellu beth fydd yn cael ei wneud a gan bwy
- Ymdrin â gwybodaeth neu gwynion yn gyfrinachol pan fydd gofyn i chi wneud hynny
- Os yw'n briodol, gweithio gyda chi i geisio datrys y broblem gan egluro'n glir i chi beth fydd yn digwydd ym mhob cam o'r achos
- Cysylltu â chyfweld y bobl sy'n gyfrifol am ymddygiad gwrthgymdeithasol lle maent wedi eu hadnabod o fewn 10 diwrnod gwaith ers cyfweld yr unigolyn sydd wedi gwneud y gŵyn.
- Ystyried yr achos i gynnig cyfryngu os yw pob parti yn cytuno i wneud hynny
- Cynnig cyngor a chael eich cyfeirio at asiantaethau mwy priodol pan na fyddwn ni yn medru helpu.

3.4 Sicrhau eich bod chi'n cael eich cefnogi

- Cynnig cefnogaeth i'r unigolyn sy'n cwyno am yr ymddygiad gwrthgymdeithasol ac i dystion eraill neu bobl sy'n cael eu heffeithio drwy

roddi gwybod i chi am swyddog sydd am ymdrin â'ch achos a threfnu ymweliadau a galwadau ffôn gan eich Wardeniaid Cymunedol

- Os yw'r achos yn ymwneud â phobl fregus, yn ddiodefwr neu'n gyflawnwr, efallai y byddwn yn cynnig cefnogaeth i'r cwynwr a'r sawl sy'n achosi'r ymddygiad gwrthgymdeithasol e.e. lle mae yna faterion megis iechyd meddwl i'w hystyried
- Egluro'r weithdrefn i dystion pan fydd achosion yn cael eu cyfeirio at weithredu'n gyfreithlon ac yn y pen draw i'r Llys
- Trefnu i chi siarad gyda'n tîm Cyfreithiol yn bersonol lle bo'n bosib
- Rhoddi taflenni dyddiadur i gofnodi manylion unrhyw ddigwyddiad yr ydych chi'n ei brofi neu ei dystio. Bydd y wybodaeth hon o gymorth i ni benderfynu beth ddylem ei wneud a hefyd gellir eu defnyddio fel tystiolaeth os yw achos yn mynd ymlaen i'r llys

3.5 **Gweithio gydag asiantaethau eraill**

3.6 Bydd CCG yn ceisio gweithio gydag eraill i geisio datrys y sefyllfa. Efallai y byddant yn cysylltu gydag asiantaethau statudol eraill a phartneriaid i rannu gwybodaeth a fydd o gymorth i ymdrin â'r broblem. Gall hyn gynnwys e.e. yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol neu Cymorth i Ferched.

4 **Opsiynau sydd ar gael i CCG**

4.1 Mae yna amryw o weithrediadau cyfreithiol a rhai sydd ddim yn golygu ymdrin â'r gyfraith ar gael i CCG. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

- **Cyfyngu** – gellir cynnig hyn mewn anghydfodau bach, yn fuan yn yr achos cyn bod sefyllfa yn gwaethygu.
- **Rhybudd Terfynol** - Bod rhybudd terfynol wedi ei arwyddo gan y tenant a Chartrefi Cymunedol Gwynedd sy'n nodi'r amodau tenantiaid sydd wedi eu torri ac yn nodi'r ymddygiad lle mae cwyn wedi ei gyflwyno amdano.
- **Gwasanaethau Atal** - Mewn achosion lle mae pobl ifanc yn ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol gall CCG gyfeirio unigolyn ifanc at y Tîm Atal. Amcan craidd y gwasanaeth yw cynnig dulliau i ddod ag ymddygiad gwrthgymdeithasol i ben cyn bod yr unigolyn ifanc yn mynd mewn i'r system Cyfiawnder Ieuencid.
- **Gwaharddebau Tai** - gall CCG wneud cais am Waharddeb yn erbyn rhywun lle gall ei ymddygiad achosi niwsans neu aflonyddwch i unigolion penodol. Gellir defnyddio gwaharddebau hefyd i atal defnyddio neu fygwth defnyddio eiddo ar gyfer gweithgareddau anghyfreithlon, er enghraifft, ymdrin â nwyddau wedi eu dwyn. Gall CCG wneud cais hefyd am orchymyn gwahardd a/neu bŵer arestio mewn achosion priodol.
- **Ymrwymiad** - Pan fydd unigolyn yn addo i'r llys i beidio ymddwyn mewn ffordd benodol. Mae unrhyw ymrwymiad yn debyg i Waharddeb, felly os caiff ei thorri, mae'n achos o ddirmyg llys a gellir gwneud cais i yrru'r person i garchar.

- **Gorchymyn Israddio** – Gorchymyn gan y llys lle bydd tenant sicr yn colli llawer iawn o hawliau sydd gan denant sicr am gyfnod o ddeuddeg mis. Gall CCG roddi rhybudd bod achos meddiannu yn mynd yn ei flaen unrhyw dro yn ystod y deuddeg mis.
- **Achos meddiannu** - gofyn bod tenant yn cael ei droi allan.
- **Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990** - mewn achosion o niwsans sŵn, gellir cyfeirio achosion at Adran Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol.

4.2 Gall CCG gyfuno'r hyn sydd ar gael er mwyn cael y canlyniad delfrydol.

5 **Cau Achosion**

5.1 Bydd CCG yn cau achosion lle:

Mae'r Achos wedi ei Ddatrys – Mae'r mater wedi ei ddatrys ac nid oes angen pryderu mwyach

NEU

Mae'r achos heb ei ddatrys fwy na heb – gan nad yw'r sawl a gwynodd yn cadw mewn cysylltiad ac ni ddarparwyd y dystiolaeth a ofynnwyd amdani, neu, ar gais y cwynwyr, ni ydym am weithredu ymhellach.

6 **Monitro'r gwasanaeth a ddarparir gan CCG**

- 6.1 Bydd CCG yn monitro ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r gwasanaethau yr ydym ni'n eu darparu i fynd i'r afael â nhw. Byddwn yn defnyddio mesurau perfformiad yn ogystal ag adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth i sicrhau bod y Gwasanaeth yn gwella'n barhaus.
- 6.2 Mae perfformiad y Tîm Gwasanaethau Bro yn cael ei gynnwys mewn adroddiad monitro chwarterol sy'n cael ei archwilio gan Bwyllgor Gweithredol CCG a'r Tîm Rheoli.
- 6.3 Caiff y gwasanaethau eu monitro yn allanol drwy Holiadur Defnyddwyr Gwasanaeth sy'n cael ei gwblhau drwy alwad ffôn pan fydd achos yn cael ei gau.
- 6.4 Os nad ydych yn hapus gyda'r gwasanaeth yr ydych chi'n ei dderbyn wedi i chi adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol, bydd CCG yn:
- Eich cyfeirio at y polisi cwynion
 - Eich galluogi i gofnodi eich cwynion mewn sawl ffordd e.e. ffôn, llythyr, e-bost neu drwy ymweld ag un o'n swyddfeydd.
 - Cyfeirio eich cwyn at ein Rheolwr Gwasanaethau Cwsmer er mwyn ei ymchwilio

7 **Casglu Data**

7.1 Wrth ofyn am wybodaeth neu roddi gwybodaeth i asiantaethau eraill e.e. yr Heddlu, bydd CCG yn cadw at brotocolau sydd wedi eu cytuno. Eithriad i hyn fydd pan ystyrir bod yr unigolyn mewn risg mewn unrhyw sefyllfa neu fod yn risg uchel o niwed difriol i unrhyw un yn y sefyllfa a ddisgrifir. Ni roddir gwybodaeth i drydydd partïon nad ydynt yn rhan o'r achos heb ganiatâd y cwynwr, fodd bynnag mae gennym ddyletswydd i ddatgelu os bydd y mater a

adnabyddir yn un o risg neu niwed arwyddocaol yn unol â Pholisi Diogelu Grwpiau Bregus CCG.

8 CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

- 8.1 Mae CCG yn cydnabod y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gynnwys aflonyddwch hiliol a mathau eraill o aflonyddu a ysgogir gan ragfarn. Mae Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CCG yn berthnasol i bob agwedd ar ein gwaith yn cynnwys Darparu Gwasanaeth. Dywed y polisi y bydd gan bawb gyfle cyfartal wrth gael mynediad at wasanaethau. Wrth weithredu'r polisi hwn, bydd tenantiaid sy'n destun ymddygiad gwrthgymdeithasol a dargedir, o safbwynt gwahaniaethu ar sail casineb, hil ac anabledd, yn cael cynnig ystod o drefniadau cefnogol, yn ddibynnol ar anghenion y dioddefwr ac yn unol â Safonau'r gwasanaeth.

9 ADOLYGU

- 9.1 Adolygir y weithdrefn hon bob 3 blynedd, neu mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth, canllaw rheoliadol, arfer da neu newidiadau mewn polisi arall perthnasol gan CCG.